

Cyngor Cymuned Llanelian (292)

Cofnodion cyfarfod Tachwedd 7ed, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Hefina Williams, Helen Hughes, John Griffiths, Gordon Hayes, Ian Evans, Thomas Jones, Cyng Aled Jones

Ymddiheuriadau: Dafydd Griffiths, Glenys Jones, Carol Whitaker, Elfyn Hughes, Cyng Richard Jones, Cyng Richard Griffiths

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig John Griffiths eilio Ian Evans.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Toiledau Cyhoeddus

Dim ddiweddariad.

4.2 Arolwg Tai

Nodwyd siom nad oedd unrhyw symud gyda'r arolwg. Teimlai'r aelodau nad oedd y Cyngor Sir yn gwrandao nac yn cefnogi cymunedau'n ddigonol ac y dylai'r wybodaeth wedi cael ei rannu erbyn hyn. Nodwyd mai yn ol ym mis Mehefin cafwyd y cyflwyniad, a chytuno bod angen arolwg anghenionyn yr ardal. Ni fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am ddatblygiadau newydd nes bydd yr arolwg wedi ei gwblhau. Nid yw hyn yn deg ar ddatblygywr na thrigolion lleol. Cytuno ysgrifennu i ddatgan siom am yr oedi.

4.3 Lon yr Ysgol

Dim ddiweddariad, gofyn i Glenys Jones os oedd Llywodraethwyr yr Ysgol wedi/yn bwriadu anfon llythyr i'r rhieni.

4.4 Swyddfa Bost

Mae'r Swyddfa Bost wedi agor yn ei newydd wedd. Cytuno bod angen i'r arwyddion swyddogol fod yn ddwy-ieithog, Hefina Williams i wneud ymholiadau. Deallwyd bod y Post Brenhinol yn edrych ar opsiynau i ail-leoli'r blwch post.

4.5 Giat y Fynwent

Dim diweddariad.

4.6 Dwr Cymru - System Garffosiaeth

Daw map a gwybodaeth pellach gan y cwmni. Mae pryderon yr aelodau fodd bynnag yn parhau. Nodwyd bod Dwr Cymru yn cael cyfle i roi barn ar pob cais cynllunio a chyda cyfrifoldeb i ymateb os oes unrhyw bryder ynglŷn a charffosiaeth a thraenau. Cytuno byddai'r Cyngor yn lleisio pryder ac yn parhau i ofyn cwestiynnau ble bod angen. Cytuno nodi wrth ymateb i geisiadau cynllunio megis '*no objection subject to Welsh Water approval*'.

4.7 Cerbydau Fferm

Cafwyd wybod bod Aled Jones wedi cyfarfod ar y safle gyda swyddogion CSYM. Daw ymateb hefyd gan CSYM yn nodi eu bod wedi cysylltu a'r contractiwr ai fod wedi cytuno defnyddio ffyrdd eraill. Cytuno cadw golwg ar y sefyllfa.

5 Caeau Chwarae

Mae Gordon Hayes wedi cael yr arwyddion i'w gosod yn y caeau chwarae, ac mae'r ail fainc wedi ei osod ym Maes Llwyfo (y plac coffa gwreiddiol wedi ei ail-osod). Nodwyd bod cwynion wedi bod ar facebook yn ddiweddar am wydr yn y cae chwarae a diolchwyd i rheini oedd wedi ei glirio. Mae

rhai cerbydau yn parhau i or-yrru i lawr Lon Tyddyn Waen er bod yr arwyddion erbyn hyn wedi eu gosod mewn llefydd mwy amlwg.

6 **Llithrfa**

Cafwyd wybod bod 33 o'r 38 goriad wedi eu dychwelyd erbyn diwedd mis Hydref a bod sieciau am yr ad-daliadau wedi eu hanfon yn ol. Bydd cyfarfod i'w drefnu ddiwedd mis Tachwedd / dechrau Rhagfyr.

7 **Cynllunio**

7.1 **Ceisiadau** – roedd un cais i'w ystyried:

- Bryn Glas Bach, Llanelian – dim sylw

7.2 **Penderfyniadau** – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- Pant y Clociau (24C346) – Caniatad
- Tregarth (24C345) – Gwrthodwyd

7.3 **Kingston / Dublin**

Cafwyd gadarnhad bod caniatad yn barod ar y safle am 8 o dai, a bod y cais presennol am 9. Mae'r cytundeb 106 yn ymwneud a thai fforddiadwy. Nodwyd nad oedd unrhyw un o'r ymgynghorwyr wedi gofyn am gyfraniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd rhaid gwneud nodyn o hyn tra'n ystyried ceisiadau eraill yn y dyfodol.

8 **Materion Ariannol**

8.1 **Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£224.40 Swyddfa Archwilio Cymru - archwiliad

£25.00 RBL Poppy Appeal - torch

£272.23 Cyflog Clerc

£77.50 JRE Design – arwyddion cae chwarae

£650.00 Neuadd Bentref Penysarn – cyfraniad blynyddol

£75.00 Yr Arwydd – cyfraniad blynyddol

£63.64 Viking Direct – inc

£25 x 33 Ad daliadau llithrfa

Fe ofynnodd Thomas Jones a ddylai'r Neuadd fod yn cael cyfraniad blynyddol gan y Cyngor a hwythau wedi derbyn swm o arian gan Mrs Mair Morris. Nodwyd nad oedd y Cyngor yn talu am ddefnyddio'r cyfleusterau, a bod cyfraniad wedi ei gynnwys yn y gyllideb eleni. Bydd trafodaeth pellach tra'n gosod cyllideb 2018-19.

8.2 **Ceisiadau am Arian**

Dim ceisiadau wedi'i derbyn.

8.3 **Cofrestr Asedau**

Dim diweddariad ond gwaith yn parhau.

9 **Cronfa Ty Moel Isaf**

Dim diweddariad.

10 **Iechyd a Diogelwch**

Dim byd i'w adrodd, dim ond gwydr yn y cae chwarae – eisioes wedi ei drafod.

11 **Panel Adolygiad Annibynnol**

Cytuno bod angen trafodaeth pellach. Gofynnwyd i'r clerch anfon y wybodaeth perthnasol i'r aelodau gyda'r cofnodion er mwyn rhoi sylw i'r cwestiynnau ac adrodd yn ol i'r pwyllgor llawn.

12 **Gohebiaeth**

12.1 **Grid Cenedlaethol** – ddiweddariad am eu prosiect.

12.2 **Claddedigaethau Plant** – daw cais gan Llywodraeth Cymru am wybodaeth os ydi'r Cyngor yn codi ffi am gladdu plant dan 18 mlwydd oed ac a fyddai'r Cyngor yn ystyried peidio a chodi'r ffi

yma yn y dyfodol. Cytuno mewn egwyddor ond bod angen mwy o wybodaeth am y cynllun.

12.3 Wylfa Newydd – mae ymgynghoriad am wastraff ymbelydrol. Mae angen ymateb erbyb Ionawr 14, 2018. Cytuno cynnwys yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

12.4 Cau Lon - daw gwybodaeth gan CSYM am gau lon ger Plas Uchaf ar gyfer gwaith uwch-raddio,

13 Hyfforddiant Cod Ymddygiad

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi trefnu sesiynnau hyfforddiant yn Llangefni. Cadarnhawyd bod Ian Evans fel aelod newydd wedi cadarnhau ei le yn barod.

14 Unrhyw Fater Arall

14.1 Mainc ger Eglwys Eilian – mae cyflwr y mainc wedi dirywio. Aled Jones i wneud ymholiadau gyda swyddogion llwybr yr arfordir i weld os oes mainc newydd ar gael.

14.2 Arwydd llwybr – mae'r arwydd ar gyfer y llwybr o Ben Lon tuag at yr Hen Telegraph wedi ei godi. Mae angen codi ymwybyddiaeth y swyddogion priodol.

14.3 Cyllideb 2018/19 – cafwyd wybod gan Aled Jones bod posib bydd cynydd o hyd at 5% yng nghyllideb CSYM y flwyddyn nesaf. Bydd ymgynghori ar y cynnigion yn fuan.

14.4 Sul y Cofio - Nodwyd byddai'r clwb ieuenctid yn gosod torch ddydd Sul a byddai'n dda gweld aelodau'r cyngor yno i'w gefnogi. Bydd yr Ysgol Gynradd yn gwneud eu trafniadau eu hunain.

14.5 Llongyfarch – Hoffai'r aelodau longyfarch Bleddyn Mon, ar ei lwyddiant diweddar ym myd hwylio.

15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Rhagfyr 5, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.20.

**Arwyddwyd
Hefina Williams
Is-Gadeirydd**